**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1320
Ein cyf/Our ref RE/00015/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

deisebau@senedd.cymru

24 Ionawr 2023

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr ynghylch deiseb yr ydych wedi'i chael oddi wrth Mark Fisher, yn gofyn bod rhagor o gyllid yn cael ei ddyrannu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

Fel yn ystod y blynyddoedd diwethaf, roedd blaenoriaethau'r Llywodraeth hon ar gyfer ein cyllideb yn dal i fod yn wasanaethau cyhoeddus rheng flaen. Nododd y setliad llywodraeth leol a gyhoeddais ar 14 Rhagfyr gyllid refeniw craidd ar gyfer 2023-24 o £5.5 biliwn. Mae hyn yn golygu, ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau, y bydd cynnydd o 7.9 yn y cyllid craidd cyffredinol ar gyfer llywodraeth leol, ar sail tebyg at ei debyg, yn 2023-24 o'i gymharu â'r flwyddyn gyfredol. Ni fydd unrhyw awdurdod yn cael cynnydd o lai na 6.5%. Yn 2023-24, bydd yr awdurdodau lleol yn cael £5.5 biliwn gan Lywodraeth Cymru mewn Grant Cynnal Refeniw ac Ardrethi Annomestig i'w wario ar ddarparu gwasanaethau allweddol. Caiff Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot gynnydd o 7.1% ar gyfer 2023-24.

Dyraniad cyllid refeniw craidd dangosol yr awdurdodau lleol ar lefel Cymru ar gyfer 2024-25 yw £5.69bn - sy'n cyfateb i godiad o £169m (3.1%). Mae'r ffigur hwn yn ddangosol ac yn ddibynnol ar ein hamcangyfrifon presennol o incwm NDR ac unrhyw gyllidebau'r DU ar gyfer 2024-25.

Yn ogystal â hyn, llwyddais i gyhoeddi gwybodaeth am grantiau refeniw a chyfalaf a gynllluniwyd ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol. Ar gyfer 2023-24, mae'r rhain yn dod i dros £1.3bn ar gyfer refeniw a thros £925m ar gyfer cyfalaf. Rydym yn darparu'r gwerthoedd grant dangosol hyn yn awr fel bod yr awdurdodau lleol yn gallu cynllunio eu cyllidebau'n effeithlon. Fel yn y blynyddoedd blaenorol bydd yr wybodaeth hon yn cael ei diweddaru ymhellach yn y setliad terfynol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Wrth wneud penderfyniadau am lefel y cyllid ar gyfer llywodraeth leol, rwyf wedi ymateb i'r angen i gefnogi gwasanaethau rheng flaen allweddol. Yn benodol, rwyf wedi cynnwys cyllid i alluogi'r awdurdodau i barhau i dalu costau ychwanegol cyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal ac i gefnogi pwysau ym myd addysg.

Mae proses Cyllideb ddrafft 2023-24 a setliad llywodraeth leol dros dro 2023-24 wedi bod yn un o'r rhai mwyaf anodd ers datganoli oherwydd y pwysau ariannol yr ydym yn eu hwynebu. Mae'r Gweinidogion a minnau'n cydnabod bod gwasanaethau cyhoeddus yn fregus iawn ar ôl degawd o gyni, Brexit a'r pandemig, ac nad ydynt yn gallu gwrthsefyll unrhyw sioc bellach. Rhaid iddynt ddelio â'r cynnydd enfawr ym mhrisiau ynni a chwyddiant sy'n uwch nag y bu ers 40 mlynedd, tra bo'r galw am lawer o wasanaethau cyhoeddus hefyd yn codi.

Er bod hwn yn setliad cymharol dda i awdurdodau lleol yng Nghymru, gan adeiladu ar ddyraniadau gwell yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rwyf yn cydnabod bod y cyfraddau chwyddiant a welwyd dros y misoedd diwethaf a rhagolygon OBR y bydd lefelau chwyddiant yn dal yn uchel yn golygu y bydd angen i lywodraeth leol wneud penderfyniadau anodd o hyd wrth bennu eu cyllidebau.

Nid yw Llywodraeth y DU wedi rhoi cyllid digonol i Gymru i fodloni lefel y pwysau sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae Gweinidogion Cymru wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd iawn yn ystod proses y Gyllideb Ddrafft. Er bod rhywfaint o gyllid ychwanegol i Gymru yn Natganiad yr Hydref - £1.2bn dros ddwy flynedd - daeth bron hanner hynny o benderfyniadau a wnaed ynglŷn â'r polisi ardrethi annomestig yn Lloegr. Ni fydd hyn yn llenwi'r bylchau mawr yn setliad Cymru dros gyfnod tair blynedd yr adolygiad o wariant (2022-23 i 2024-25). Hyd yn oed ar ôl y cyllid ychwanegol yn Natganiad yr Hydref, mae ein setliad yn dal i fod hyd at £3bn yn is mewn termau real a hyd at £1bn yn is y flwyddyn nesaf. Rwyf wedi parhau i bwyso ar y Canghellor am gyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau allweddol ac am gymorth ynni i ddefnyddwyr domestig ac annomestig.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government